**Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd – Archwilio Cyfrifon 2022/23**

Mae'r Cyngor yn cyhoeddi'r Datganiad Cyfrifon ar gyfer Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae'r cyfrifon yn rhoi gwybodaeth am weithgareddau ariannol yn ystod y flwyddyn, ac am asedau a rhwymedigaethau ar ddiwedd y flwyddyn.

Roedd y Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol cwblhau hyn erbyn 31 Mai 2023.

Llofnododd ac ardystiodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol y cyfrifon ar 15 Gorffennaf 2023.

Mae rheoliad 10(2) Rheoliadau Cyfrifon ac Archwiliadau (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol, yn dilyn ardystiad y Swyddog Ariannol Cyfrifol y cyfeirir ato uchod, i Gyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd gymeradwyo a chyhoeddi'r datganiad cyfrifon a archwiliwyd.

Roedd y Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol cwblhau hyn erbyn 31 Gorffennaf 2023.

Nid yw'r archwiliad o ddatganiad cyfrifon 2022/23 wedi'i gwblhau eto ac nid oes barn archwilio wedi'i chynnig.